

Ailgylchu eich batris o gartref – CBS Blaenau Gwent

Cwestiynau Cyffredin

Beth yw'r gwasanaeth casglu batris?

Yn 2015, fe wnaethom gyflwyno casgliad wythnosol am ddim ar gyfer eich batris o'r cartref, sy'n eich galluogi i roi eich hen fatris allan i'w hailgylchu mewn bag plastig bach clir.

Gan fod llawer ohonoch yn defnyddio'r gwasanaeth hwn, rydym am ei gwneud hyn haws fyth ichi ailgylchu popeth posibl o gartref. Felly, rydym yn cynnig bag bach gwyn ailddefnyddiadwy newydd ichi ei ddefnyddio i roi eich batris allan i ni eu casglu, yn hytrach na defnyddio eich bagiau plastig untro eich hunain.

Rhwng dydd Llun 20 Mawrth a dydd Gwener 14 Ebrill, byddwn yn danfon taflen wybodaeth ichi yn egluro sut i ddefnyddio'r gwasanaeth gwell hwn.

Byddwn yn casglu cynnwys eich bag gwyn bob wythnos, ynghyd â'ch ailgylchu arall, ar eich diwrnod casglu arferol.

Sut ddylwn i ddefnyddio'r gwasanaeth casglu batris?

1. Casglwch eich bag bach gwyn ailddefnyddiadwy newydd ar gyfer batris o'ch Hwb Cymunedol Lleol, sydd mewn lleoliad canolog yn yr holl lyfrgelloedd lleol a reolir gan Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin. [Hybiau Cymunedol Blaenau Gwent | Blaenau Gwent CBC \(blaenau-gwent.gov.uk\)](#)
2. O **ddydd Llun 17 Ebrill 2023**, pan fydd angen ichi gael gwared ar unrhyw fatris o'r cartref, rhowch nhw yn eich bag newydd. (Peidiwch â defnyddio eich bagiau plastig untro eich hunain mwyach, nac unrhyw gynhwysydd arall, i roi eich batris allan i ni eu casglu.)
3. Caewch y fflap ar eich bag, yna rhowch ef wrth ochr – neu rhwng – eich cynwysyddion ailgylchu eraill cyn 7yb ar eich diwrnod casglu arferol.
4. Casglwch eich cynwysyddion o'ch man casglu unwaith y byddwn wedi'u gwagio.

Pa fathau o fatris gaf i eu rhoi yn fy mag newydd?

Cewch roi unrhyw fatris o'r cartref sy'n hen neu'n ddieisiau, fel rhai **AAA, AA, B, C, D, DD a 9V**.

Pa fathau o fatris na ddylwn eu rhoi yn fy mag newydd?

Peidiwch â rhoi'r mathau canlynol o fatris yn eich bag i ni eu casglu:

- Batris 'botwm' lithiwm-ion, fel y rhai a ddefnyddir mewn cyfrifianellau, dyfeisiau cymorth clyw, a watshis
- E-sigarennau a 'vapes' a'u batris
- Batris y gellir eu gwefru o liniaduron, ffonau symudol, tŵls trydan a sugnwyr llwch
- Batris ceir
- Teclynnau gwefru batris

Os bydd arnoch angen cael gwared ar y mathau hyn o fatris, ewch â nhw i'ch [Canolfan Ailgylchu leol](#), os gwelwch yn dda. [Ymweld â Chanolfan Ailgylchu | Blaenau Gwent CBC \(blaenau-gwent.gov.uk\)](#)

Pam ydych chi'n casglu batris ar wahân i ddeunyddiau ailgylchadwy eraill?

Pan fo batris yn cael eu hailgylchu gyda deunyddiau ailgylchadwy eraill, fel plastigion a chaniau, maen nhw'n gallu ffrwydro neu achosi tân, sydd yn beryglus i'n staff, yn difrodi offer prosesu ailgylchu, ac yn ddrwg i'r amgylchedd.

[Cliciwch yma i ddysgu mwy am beryglon casglu batris wedi'u cymysgu â deunyddiau eraill.](#)

Beth sy'n digwydd i'r batris ar ôl iddynt gael eu casglu?

Wedi iddynt gael eu casglu, bydd eich hen fatris yn cael eu didoli, yna eu rhwygo'n fân i adennill y deunyddiau crai a ddefnyddiwyd i'w gwneud, yn cynnwys nicel, sinc, cadmiwm a lithiwm. Bydd y deunyddiau hyn yn cael eu hailgylchu i greu nwyddau newydd, fel nwyddau electronig neu fatris newydd. Gellid hyd yn oed defnyddio'r lithiwm a gaiff ei adennill i bweru ceir trydan!

Beth yw manteision cyflwyno'r bag newydd hwn ar gyfer batris?

- Bydd yn ei gwneud yn haws ichi ailgylchu mwy o'ch gwastraff o gartref.

- Mae'n fwy diogel casglu batris ar wahân i ddeunyddiau eraill. Pan fo batris yn cael eu hailgylchu gyda deunyddiau ailgylchadwy eraill, fel plastigion a chaniau, maen nhw'n gallu ffrwydro neu achosi tân, sydd yn beryglus i'n staff, yn difrodi offer prosesu ailgylchu, ac yn ddrwg i'r amgylchedd.
- Bydd yn lleihau ein hangen am fagiâu plastig untro, sy'n well i'r amgylchedd.
- Pan fyddwn yn ailgylchu ein batris er mwyn iddynt gael eu troi'n nwyddau newydd, fel nwyddau electronig neu fatris newydd, rydym yn defnyddio llai o ynni o'i gymharu â defnyddio deunyddiau 'newydd' neu ddeunyddiau 'crai' i greu'r eitemau hyn, gan hefyd leihau ein hallyriadau carbon sy'n helpu i atal newid hinsawdd.
- Bydd yn unol â'r dull a argymhellir ar gyfer yr holl gasgliadau ailgylchu a gwastraff na ellir ei ailgylchu ledled Cymru a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru, a fydd yn ein helpu i gyrraedd ei darged o ailgylchu 70% o'n holl wastraff erbyn 2025.

Os bydd hi'n wyntog, sut allaf i atal fy mag rhag chwythu i ffwrdd ar fy niwrnod casglu?

Os gallwch, yna 'stwffiwch' eich bag yn sownd rhwng eich cynwysyddion ailgylchu eraill. Cofiwch hefyd gau fflap eich bag i atal y batris rhag arllwys ohono.

Pam mai bag bach rydych chi wedi'i ddarparu ar gyfer y gwasanaeth casglu batris?

Ni ddylai fod angen arnoch roi mwy o fatris na'r hyn sy'n ffitio yn eich bag newydd bob wythnos. Fodd bynnag, os ydych chi'n teimlo fod angen bag ychwanegol arnoch, cewch gasglu un o'ch Hwb Cymunedol agosaf, sydd mewn lleoliad canolog yn yr holl lyfrgelloedd lleol a reolir gan Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin. [Hybiau Cymunedol Blaenau Gwent | Blaenau Gwent CBC \(blaenau-gwent.gov.uk\)](#)

Sut allaf i gasglu bag newydd os caiff f'un i ei golli neu os yw'n malu?

Cewch gasglu bag newydd o'ch Hwb Cymunedol agosaf, sydd mewn lleoliad canolog yn yr holl lyfrgelloedd lleol a reolir gan Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin. [Hybiau Cymunedol Blaenau Gwent | Blaenau Gwent CBC \(blaenau-gwent.gov.uk\)](#)

Beth ddylwn ei wneud os oes gennyf fwy o fagiâu na'r hyn y mae ei angen arnaf?

Dim ond un bag ddylech ei gael ar gyfer eich batris, ond os oes gennyf chi fwy na'r hyn y mae ei angen arnoch, rhowch ef i aelod o'ch teulu neu ffrind a allai ei ddefnyddio neu gallwch ei ddychwelyd i'ch Hwb Cymunedol agosaf, sydd mewn lleoliad canolog yn yr holl lyfrgelloedd lleol a reolir gan Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin. [Hybiau Cymunedol Blaenau Gwent | Blaenau Gwent CBC \(blaenau-gwent.gov.uk\)](#)

Pam nad ydych yn danfon fy mag newydd i fy nghartref? Pam mae'n rhaid i mi ei gasglu?

Deallwn nad yw'n holl breswylwyr yn defnyddio'r gwasanaeth hwn, ac efallai bod rhai sy'n dewis ailgylchu eu batris mewn mannau ailgylchu oddi cartref, fel archfarchnadoedd, ac felly efallai y byddai'n well ganddynt beidio derbyn a storio cynhwysydd ailgylchu ychwanegol.

Os hoffech ddefnyddio'r gwasanaeth newydd hwn, casglwch eich bag bach gwyn ailddefnyddiadwy newydd ar gyfer batris o'ch [Hwb Cymunedol agosaf](#), sydd mewn lleoliad canolog yn yr holl lyfrgelloedd lleol a reolir gan Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin. [Hybiau Cymunedol Blaenau Gwent | Blaenau Gwent CBC \(blaenau-gwent.gov.uk\)](#)

Sut ddylwn i gael gwared â hen e-sigarennau a 'vapes' yn gywir?

Mae e-sigarennau a 'vapes' yn cynnwys nifer o wahanol rannau a dylid eu hailgylchu ar y cyd ag eitemau trydanol bach eraill.

Os bydd arnoch angen cael gwared ag unrhyw hen e-sigarennau neu 'vapes', rhowch nhw mewn bag plastig clir ynghyd ag unrhyw eitemau trydanol bach eraill, clymchwch y bag yn dynn, a'i roi ar ben eich Trolibocs ar eich diwrnod casglu arferol i ni eu casglu.

Beth arall gaf i ailgylchu ym Mlaenau Gwent?

[Am fwy o wybodaeth am yr hyn y gallwch – ac na allwch – ei ailgylchu yn eich ardal chi, cliciwch yma. \[Sut i Ailgylchu'n Gywir | Blaenau Gwent CBC \\(blaenau-gwent.gov.uk\\)\]\(#\)](#)

Cewch hefyd ailgylchu amrywiaeth eang o ddeunyddiau yn eich [Canolfan Ailgylchu leol](#). [Ymweld â Chanolfan Ailgylchu | Blaenau Gwent CBC \(blaenau-gwent.gov.uk\)](#)

Mae eich ailgylchu'n gwneud gwahaniaeth MAWR ym Mlaenau Gwent. DIOLCH YN FAWR ICHI am barhau i wneud y peth iawn ac am chwarae eich rhan dros yr amgylchedd, drwy ddioli eich gwastraff ac ailgylchu popeth y gallwch.